# Nodyn o'r cyfarfod

| | |
|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | **Fforwm Mynediad Cenedlaethol i Gymru – cyfarfod 70** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 9 Tachwedd 2021 |
| **Amser y cyfarfod:** | **10:30 – 13:00** |
| **Yn bresennol:** | Geraint Davies (Cadeirydd), Rosie Plummer (Aelod Bwrdd CNC), Andy Phillips (Angling Cymru), Elfyn Jones (Cyngor Mynydda Prydain / Cyswllt Amgylchedd Cymru), Rachel Lewis-Davies (Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr), Beverley Penney (Cymdeithas y Mannau Agored), Jonathan Hughes (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Phil Stone (Canŵ Cymru), Charles de Winton (CLA), Rachel Evans (Y Gynghrair Cefn Gwlad), Gwenda Owen (Cycling UK), Ian Mabberley (Fforymau Mynediad Lleol), Dave Waterman (LARA), Gerwyn Owen (RYA Cymru), David Evans (Ymddiriedolaeth Cwm Elan), Bernard Griffiths (Undeb Amaethwyr Cymry), Ruth Rourke (Y Sefydliad Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Rheoli Mynediad, Dirprwy Gadeirydd), James Nevitt (Defence Estates), Rebecca Brough (Ramblers Cymru), Anthony Richards a Peter Rutherford (Parciau Cenedlaethol Cymru), Steve Rayner (Sefydliad Twristiaeth Gweithgareddau Cymru), Mathew Williams (Cymdeithas Chwaraeon Cymru), Simon Pickering (Llywodraeth Cymru), Sarah Smith (Llywodraeth Cymru), Steven Morgan (Chwaraeon Cymru), Carys Drew a Jayne Carter (Ysgrifenyddiaeth CNC), Keith Watts (Llywodraeth Cymru), Juliet Michael (CNC), David Liddy (CNC), Delyth Davies (cyfieithydd) |
| **Ymddiheuriadau:** | Adrian Walls (Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru – Gweithgor Rheolwyr Hawliau Tramwy Cymru), Eni Hansen-Magnusson (Sustrans), Mark Weston (Cymdeithas Ceffylau Prydain) |
| **Arsylwyr:** | Eben Muse (Cymdeithas Mynydda Prydain), Eifion Jones (Cyngor Ceredigion), Michael Smith (CNC), Bill Purvis (CNC), Dave Maccallum (CNC), Sarah Hetherington (CNC), Owen Gruffudd (CNC), Michael Smith (CNC), Liza Tomos (CNC), Jont Bulbeck (CNC), Y Cynghorydd David Evans |

| Rhif yr eitem: | Eitem |
|---|---|
| 1. | ## Croeso ac ymddiheuriadau<br><br>Croesawodd y cadeirydd y mynychwyr i'r 70fed cyfarfod a'i gyntaf fel cadeirydd. Gwnaeth y cadeirydd a'r holl aelodau gyflwyno eu hunain yn gryno. Croesawyd arsylwyr a’u hatgoffa eu bod i arsylwi yn hytrach na chyfrannu at y cyfarfod.<br><br>Atgoffodd Carys fynychwyr o'r trefniadau cyfarfod ar-lein ar gyfer cymryd rhan yn y cyfarfod, a bod cyfieithu ar y pryd wedi’i drefnu ac yn gweithio. Byddai'r cyfarfod yn cael ei recordio at ddibenion crynodeb y cyfarfod ac yna'n cael ei ddileu. Atgoffwyd yr aelodau mai nodyn cryno yn hytrach na chofnodion gair am air yw cofnod y cyfarfod. |
| 2. | ## Camau gweithredu a materion sy’n codi<br><br>Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol drwy e-bost. Diweddarwyd y camau gweithredu canlynol:<br><br>**Cam Gweithredu 68.2:** Carys i lunio crynodeb un dudalen o’r ‘Gwersi a Ddysgwyd’ o gyflwyniad Helen Pye: **Wedi’i gwblhau a’i gylchredeg drwy e-bost**<br><br>**Cam Gweithredu 69.1:** Diolch yn ffurfiol i John Morgan am ei gyfraniad fel cynrychiolydd cenedlaethol i’r holl fforymau: **Anfonwyd diolch ar ran y fforwm**<br><br>**Cam Gweithredu 69.2:** Sue i drafod cyflwyno canlyniadau rhaglen waith Prifysgol Abertawe i’r fforwm gyda Carys: **Bwriadu cyflwyno yng nghyfarfod mis Mawrth 2022**<br><br>**Cam Gweithredu 69.3** Carys i roi cwestiynau gan Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru i Philip Roberts a dod ag atebion yn ôl i’r cyfarfod nesaf. **Wedi’i gwblhau a’i gylchredeg drwy e-bost**<br><br>**Cam Gweithredu 69.4:** Dosbarthu adroddiad cynnydd yr Is-grŵp Mynediad at Ddŵr i’r fforwm. **Wedi’i gwblhau**<br><br>**Cam Gweithredu 69.5:** Ar ôl derbyn ymateb y Gweinidog, byddai’n cael ei ddosbarthu i’r fforwm llawn. Byddai’r fforwm llawn yn penderfynu a fyddai angen gwneud gwaith, ac ai is-grŵp yw’r ffordd orau o wneud hynny. **Wedi’i gwblhau**<br><br>**Cam Gweithredu 69.6:** Gwahodd y Gweinidog i ymuno â’r fforwm ar adeg briodol yn y dyfodol. **I’w ystyried ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol. Mae’r Dirprwy Weinidog wedi cynnig cyfarfod rhithwir mewn llythyr diweddar.** |

**Cam Gweithredu 69.7:** Ychwanegu eitem ar agenda yn y dyfodol i edrych ar atebolrwydd tirfeddianwyr. **I'w ystyried o dan drafodaeth am y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.**

Cwestiwn gan Steve Rayner: Nodwyd ymateb y Gweinidog i adroddiad yr Is-grŵp Mynediad at Ddŵr lle mae'n cyfeirio at waith cangen ddŵr Llywodraeth Cymru i ddynodi dyfroedd mewndirol ar gyfer hamdden. Dylid gofyn am wybodaeth gan Lywodraeth Cymru ar yr hyn y mae hynny'n ei olygu a'r hyn y maent yn ei wneud, a gofyn am ddiweddariad ar gyfer y cyfarfod nesaf.

**Cam Gweithredu 70.1:** Gofyn am fanylion pellach am waith cangen ddŵr Llywodraeth Cymru ar ddynodi dyfroedd mewndirol ar gyfer hamdden.

## Cynllun ffermio cynaliadwy

Diweddariad ar ddatblygiad y cynllun a sut y gall gefnogi gwell mynediad

Cyflwynodd Keith Watts, Pennaeth Polisi y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, linell amser y cynllun, gan gynnwys cefndir, cyd-destun, a'r ymgynghoriadau a'r newidiadau hyd yma. Caiff y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ei gyd-ddylunio, a chynhelir peilotiaid, yn 2022. Bydd y cynllun yn fyw yn 2025. Amlinellodd amcanion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, gan nodi bod yn rhaid i gynllun y dyfodol wneud y canlynol:

- Cefnogi dulliau cynhyrchu bwyd cynaliadwy, diogel a maethlon
- Ymateb i'r argyfwng hinsawdd
- Gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth

3. Byddai hyn yn gwobrwyo ffermwyr am ddarparu ychwanegedd a sicrhau canlyniadau rheoli tir cynaliadwy. Dylai'r camau gweithredu a gymerir gan ffermwyr fod yn ychwanegol at reoleiddio; darperir y llinell sylfaen ar gyfer hyn gan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Rhannodd ddiffiniad y Cenhedloedd Unedig o reoli tir yn gynaliadwy, gan nodi y gellir addasu hyn i gyd-destun Cymru. Mae'r diffiniad hwn wedi'i rannu'n ddeg canlyniad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy y mae arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru yn gweithio arnynt ar hyn o bryd. Egwyddor allweddol yw bod y rhain yn cael eu hystyried yn gyfartal, gan geisio gwelliannau cyffredinol ar draws yr holl ganlyniadau, ac ni ddylid blaenoriaethu un er anfantais i un arall. Mae gwaith yn cael ei wneud i fodelu gwerth canlyniadau, a'r bwriad yw darparu pecyn cyfannol o gefnogaeth. Rhannodd Keith y syniadau am strwythur y cynllun. Mae'r cwestiynau presennol yn ymwneud â sut i strwythuro ychwanegedd mewn perthynas â mynediad, sut olwg sydd ar hyn, ac a ddylid blaenoriaethu gwahanol fathau o fynediad.

**Pwyntiau trafod (gan gynnwys sgwrs Teams):**

- Mae ymarfer prisio canlyniadau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn ymwneud â chanlyniadau amgylcheddol. Mae set o fodelau amgylcheddol y gellir eu defnyddio i fodelu gwerth canlyniadau ac mae canlyniadau economaidd a chymdeithasol hefyd yn deillio o'r cynllun.
- Mae gwaith paratoi a pheilota yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Bydd cyfnod o gyd-ddylunio yr haf nesaf ac yna peilota, e.e. profi systemau cyfrifiadurol cyn iddynt gael eu defnyddio ac ati. Bydd mwy o wybodaeth am hyn ar gael fel y caiff ei ddatblygu.
- Rhoddir ystyriaeth i ddyluniad y cynllun er mwyn osgoi loteri cod post fel bod gan ffermwyr fynediad cyfatebol i sicrhau canlyniadau ac i dderbyn cyllid.
- Y sefyllfa hirsefydlog yw y bydd y cynllun yn darparu ychwanegedd uwchlaw'r isafswm rheoliadol, ac mae cyfle i ystyried beth yw hynny mewn perthynas â mynediad. A ddylid rhoi blaenoriaeth i themâu gwella mynediad, e.e. mynediad i'r anabl, neu fathau o le, e.e. ger afonydd.
- Mae un o'r meysydd y bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio barn arno yn ymwneud â defnydd posibl o gyllid ar gyfer pethau heblaw mynediad newydd, e.e. gwella hygyrchedd y mynediad presennol, gwella ansawdd arwyneb y llwybrau presennol trwy ddraeniad gwell ac ati. Dyma un o'r meysydd y bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio barn arno.
- Cwestiynau o ran sut y bydd hawliau tramwy cyhoeddus presennol yn cael eu hagor a'u cynnal trwy'r cynllun.

Cyflwyniad gan: Juliet Michael, Arweinydd Tîm Mynediad a Hamdden Awyr Agored, CNC, a rannodd y gwaith a ddatblygwyd yn fewnol, gan weithio gyda chydweithwyr rheoli tir i gefnogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac i ystyried pa ymyriadau gan y cynllun a allai ddarparu cyfleoedd gwirioneddol i gael budd o isadeiledd mynediad a chyfleoedd hamdden. Gan edrych yn fanylach ar ganlyniad 'gwell mynediad ac ymgysylltu' y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, rhestrodd Juliet bwyntiau yr awgrymir eu bod yn sail i'r ymyrraeth hon i sicrhau'r buddion mwyaf posibl:

- Cydymffurfio â deddfwriaeth/rheoliadau mynediad cyhoeddus
- Cynlluniau lleol, e.e. cynlluniau gwella hawliau tramwy
- Tystiolaeth o'r galw presennol a/neu ddiweddar
- Asesiadau effaith
- Hyrwyddo mynediad a ariennir gan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn flynyddol
- Egwyddorion mynediad cyfyngol lleiaf
- Mynediad am byth

Awgrym o ran tri grŵp o ymyriadau:

- Gwella mynediad presennol
- Datblygu llwybrau a mannau mynediad newydd (gan gynnwys gwella mynediad)
- Partneriaethau newydd – darparu ar gyfer cymunedau lleol

Aeth Juliet ymlaen i rannu syniadau ac awgrymiadau am yr hyn y gellir ei gynnwys yn y grwpiau hyn i ysgogi trafodaeth ar y cyd i helpu Llywodraeth Cymru i lunio’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

**Pwyntiau trafod (gan gynnwys sgwrs Teams):**

- Yr angen i ystyried elfennau cynllunio, e.e. arwyddion, parcio ceir, fel rhan o welliannau. O ran arwyddion, mae angen ystyried ansawdd, cost, cywirdeb, iaith, goblygiadau cynllunio/tirwedd, a chynnal a chadw.
- Pryder ynghylch trin mynediad mewn perthynas ag ychwanegedd yn unig. Mae angen deall y cymhelliant parhaus i barhau i ddarparu mynediad, yn yr ystyr y bydd mynediad newydd yn dod yn fynediad presennol a'r angen i ystyried atebolrwydd parhaus a chynnal mynediad o'r fath.
- Mae'n bwysig codi a gwella cysylltiad rhwng timau hawliau tramwy cyhoeddus a thimau teithio llesol, ond byddai angen hyblygrwydd o ran cymhwyso dyluniad canllawiau teithio llesol.
- Mae angen diweddaru rhai llwybrau presennol er mwyn cynnig mwy o lwybrau beicio a marchogaeth.
- Dylid rhoi blaenoriaeth i fanteisio i’r eithaf ar y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus presennol. Nid yw cyflwr y rhwydwaith cystal ag y dylai fod a dylid cymell gwella’r rhwydwaith presennol.
- Mae angen deall pa allu ac awydd sydd gan y gymuned ffermio a chwaraewyr eraill, e.e. awdurdodau lleol, i gyflawni hyn.
- Mae hefyd angen canolbwyntio mwy ar yr heriau y gallai ffermwyr eu hwynebu i ddarparu mynediad ychwanegol, e.e. atebolrwydd cyhoeddus o dda byw a pheiriannau, diogelwch y fferm a lladrad, poeni da byw, a thipio anghyfreithlon.
- Dylai dod o hyd i ffordd o godi safon y rhwydwaith hawliau tramwy presennol wrth i'r galw am ddefnydd gynyddu fod yn flaenoriaeth.
- Awgrym y dylai ymgysylltu â chymunedau, pobl a gwirfoddolwyr a pherchnogaeth/amddiffyniad fod yn rhan o'r ateb, e.e. trwy'r broses beilot ac aelodau'r fforwm yn gweithio gyda'i gilydd.
- Mae angen eglurhad mewn perthynas â chydymffurfio â deddfwriaeth mynediad cyhoeddus, p'un a yw hynny'n ymwneud â mynediad i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.
- Barn polisi CNC fyddai na fyddai’n teimlo’n iawn i dalu i wella mynediad ar un rhan o fferm ac esgeuluso hawliau tramwy cyhoeddus presennol.
- Mae Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn dwyn ynghyd lawer o wahanol reoliadau sy'n berthnasol i dirfeddianwyr a ffermwyr sy'n rhoi sylfaen i'r cynllun. Roedd Keith yn deall nad oes llawer o bethau newydd yn cael eu hychwanegu a bod y pwyslais ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar gamau ychwanegedd, taith gwelliannau, a sut i osod y cerrig camu i bobl yn y cynllun i ddarparu ychwanegedd er mwyn gael eu talu am gamau sy'n darparu manteision i les.
- Roedd Juliet yn deall nad yw deddfwriaeth mynediad wedi’i chynnwys mewn trawsgydymffurfedd yng Nghymru ond mae wedi bod yn Lloegr, felly ni fyddent yn rhan o’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol i ddechrau.

- Mae'r cwestiwn a yw deddfwriaeth mynediad yn rhan o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn hanfodol wrth ddiffinio'r man cychwyn ar gyfer 'ychwanegedd'.
- Bydd y gallu i gyflenwi o amgylch y gymuned ffermio yn dibynnu ar Lywodraeth Cymru. Mae angen cydnabod graddfa'r newid gyda Chynllun y Taliad Sylfaenol yn sail i gymunedau ffermio a gwledig. Dyma drawsnewidiad enfawr i rywbeth arall yng nghyd-destun ffactorau mawr, e.e. bargeinion masnach newydd. Yn y cyd-destun hwn, bydd ffermwyr yn canolbwyntio ar oroesi, a bydd angen i Lywodraeth Cymru roi sicrwydd ynghylch sut y bydd camau gweithredu a manteision yn cael eu gwerthfawrogi, neu fel arall bydd y gallu i gyflawni yn cael ei gyfyngu.
- Mae cwestiynau ynghylch tystiolaeth o gynnydd yn y galw am fynediad. Y defnydd o adnoddau mynediad presennol a'r cwestiwn o ran ai dyma'r adnoddau ar gyfer cynnal a chadw.
- Wrth ystyried mynediad am byth, mae angen ystyried y berthynas rhwng landlord a thenant.
- Mae pryderon ynghylch diffyg adnoddau a blaenoriaethau awdurdodau lleol.
- Mae angen gwella arwyddion ar draws tir a dealltwriaeth y cyhoedd. Ceir ffyrdd i helpu tirfeddianwyr a ffermwyr trwy wella mynediad sydd eisoes yno a byddai'n helpu i reoli materion sy'n bodoli eisoes.
- Mae arwyddion yn rhywbeth i'w gwella ac mae cyfle i edrych ar wella technoleg, e.e. codau QR a all helpu i egluro beth sy'n digwydd yn y dirwedd a chefnogi pobl i fwynhau.

**Cam Gweithredu 70.2:** Keith Watts i gadarnhau statws deddfwriaeth mynediad mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yng Nghymru.

## Rheoli diogelwch ymwelwyr

Cyflwyniad gan: David Liddy, Cynghorydd Arbenigol Diogelwch Hamdden, CNC

Nododd Dave bwysigrwydd rheoli diogelwch a pherthnasedd ymwelwyr mewn perthynas â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Dechreuodd trwy nodi rhesymau a phwysigrwydd rheoli diogelwch ymwelwyr, e.e. rhesymau moesol, cyfreithiol, ariannol, enw da, busnes a marchnata, a chael cynnyrch hamdden diogel.

4. Mae gan y Grŵp Diogelwch Ymwelwyr, a grëwyd yn 1997, ddull cyson o reoli diogelwch ymwelwyr, a nododd fod aelodau wedi ymrwymo i amddiffyn a gwella'r amgylchedd naturiol wrth annog mynediad. Mae Dave yn cynrychioli CNC ar y grŵp. Mae tua 60 o sefydliadau yn rhan o'r grŵp sy'n cynrychioli sefydliadau tirfeddianwyr i ddarparu arfer gorau. Allbwn y grŵp yw'r cyhoeddiad 'Principles and Practice', sef sylfaen y cyflwyniad.

Archwiliodd Dave yr egwyddorion a'r arferion sy'n ymwneud â diogelwch ymwelwyr, hamdden cyfrifol, a'r angen i daro'r cydbwysedd yn iawn rhwng buddion a risgiau er mwyn cynnig budd cyffredinol i gymdeithas ac unigolion. Nododd Dave nad yw'n ymwneud â chreu cymdeithas hollol ddi-risg nac atal gweithgareddau hamdden neu ddysgu pwysig lle mae risgiau'n cael eu

hystyried a'u derbyn. Dylai ymwelwyr fod yn ymwybodol o'r risgiau y maent yn eu hwynebu a chymryd gofal rhesymol am eu diogelwch eu hunain a diogelwch eraill, a nododd fod diogelwch yn gyfrifoldeb a rennir rhwng yr ymwelydd a pherchennog/rheolwr y tir.

Eglurwyd egwyddorion y Grŵp Diogelwch Ymwelwyr wedyn, gan edrych ar hanfodion, ymwybyddiaeth a phartneriaethau. Wrth daro cydbwysedd rhwng hunanddibyniaeth ymwelwyr ac ymyrraeth reoli, nododd Dave nifer o bwyntiau sy'n ddisgwyliadau rhesymol o ran sut mae ymwelwyr yn ymddwyn, e.e. i fod yn gyfrifol amdanynt eu hunain, i rieni/arweinwyr oruchwylio pobl yn eu gofal, ac i ymwelwyr beidio â rhoi eraill mewn perygl.

Mae cymhwyso'r sbectrwm rheoli risgiau yn sylfaenol i syniadau'r Grŵp Diogelwch Ymwelwyr, gan edrych ar lefel gyffredinol y defnydd gan ymwelwyr ac ystyried y lleoliad a'r tir. Esboniwyd hyn yn fanwl, gan nodi'r berthynas rhwng lefel y defnydd/lleoliad/tir a lefel sgiliau ymwelwyr a hunanddibyniaeth, sy'n llywio lefel yr ymyrraeth reoli.

Mae CNC wedi defnyddio dull seiliedig ar fapiau, a rhannodd Dave enghreifftiau o'r mathau o barthau ar gyfer ardaloedd o'r ystad a reolir yn drwm / yn gymedrol / yn ysgafn a rhai nad ydynt wedi'u datblygu. Rôl Dave fel rôl unwaith i Gymru yw sicrhau bod asesiadau risg ledled Cymru yr un fath a bod cynlluniau monitro diogelwch ymwelwyr yn cael eu rheoli. Rhannodd enghreifftiau o asesu risgiau a'r mathau o fesurau rheoli sy'n cael eu defnyddio, eu monitro, eu cofnodi a'u defnyddio, os bydd eu hangen mewn llys. Nododd fod egwyddorion cadw cofnodion o'r camau a gymerwyd (pryd a pha mor aml) yn ddefnyddiol i unrhyw dirfeddiannwr.

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi rhoi cymeradwyaeth i lyfryn 'Managing Visitor Safety in the Countryside: Principles and Practice' y Grŵp Diogelwch Ymwelwyr, a rhannwyd dyfyniadau perthnasol gan yr awdurdod.

I gloi, dywedodd Dave ei bod yn bwysig nad ydym yn dinistrio apêl lleoedd gwyllt ac anghysbell trwy osod arwyddion a ffensys, neu wneud llwybrau i safonau trefol.

**Pwyntiau trafod**

- Mae'n ddiddorol ac adfywiol gweld y dull sy'n cael ei ddefnyddio.
- Mae'n ddefnyddiol gweithio gyda phartneriaid sy'n defnyddio llyfryn y Grŵp Diogelwch Ymwelwyr fel dealltwriaeth a rennir.
- Mewn ymateb i gwestiwn am aelodaeth bresennol y Grŵp Diogelwch Ymwelwyr, nodwyd mai Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ar hyn o bryd yw'r unig awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru sy'n aelod o'r Grŵp Diogelwch Ymwelwyr.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â rheoli safleoedd CNC y tu allan i oriau swyddfa, dywedodd Dave fod angen llawer o adnoddau i ymgysylltu ag ymwelwyr wyneb yn wyneb, ac, yn gyffredinol, nid dyna mae CNC yn ei wneud ar y rhan fwyaf o'r ystad. Yn lle hynny, mae CNC yn canolbwyntio adnoddau staff mewn lleoliadau sy'n denu llawer o ymwelwyr, e.e. Coed y

Brenin, Nant yr Arian a Niwbwrch, lle mae cyfleusterau sefydlog a safleoedd datblygedig iawn. Nododd fod her i dimau lleol ar gyfer safleoedd sydd wedi'u datblygu'n gymedrol ac yn ysgafn ynghylch pryd i gymryd mesurau rheoli ychwanegol fel dod â staff i'r safle a'r angen i flaenoriaethu. Cydnabu fod y cynnydd mewn ymweliadau yn y 18 mis diwethaf wedi bod yn arbennig o heriol, gyda safleoedd yn gweld cynnydd sylweddol yn y defnydd lle bu niferoedd ymwelwyr yn is yn y gorffennol. Mae disgwyliad blaenorol o sgiliau ymwelwyr a galluoedd rhai grwpiau o ddefnyddwyr ar y safleoedd hynny yn cael eu herio, a bydd y sefyllfa hon yn parhau i gael ei monitro.

- Ceir pryder ynghylch cyhoeddi safleoedd dros dro lle mae hawliau tramwy cyhoeddus yn cael eu rhwystro ar ôl torri coed am gyfnodau hir a bod defnyddwyr sy'n osgoi rhwystrau yn rhoi eu hunain mewn mwy o berygl.
- Nododd Dave ei fod yn ymwybodol o'r broblem a bod canllawiau mewnol wedi cael eu llunio a'u diweddaru gyda chynllun ar gyfer yr hyfforddiant a ddarperir i staff ochr yn ochr â hyn.
- O ran pa mor berthnasol a throsglwyddadwy y mae'r egwyddorion i fferm weithredol breifat, gan gofio nad oes gan y mwyafrif o ffermwyr arbenigedd ac adnoddau i gynnal asesiadau risg, ac mae risgiau'n newid bob dydd ar fferm sy'n gweithio, nododd Dave ei bod yn bwysig gwneud rhywbeth yn hytrach na dim, e.e. ar gyfer mynediad a ddatblygwyd o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, sicrhau bod pobl yn gwybod ble i fynd, a beth i'w ddisgwyl. Er enghraifft, gallai cyfeirbwyntiau ar y safle a phartneriaethau gael gwefan a chael cynllun fel y gellir dangos bod camau rhesymol wedi'u cymryd.
- Mae angen addysgu defnyddwyr ar sut i ymddwyn yng nghefn gwlad ac i barchu'r amgylchedd a gweithle'r ffermwr. Mae llawer i'w wneud ac amlygwyd hyn trwy broses y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad. A allwn ofyn i Lywodraeth Cymru yn ehangach i edrych ar addysg trwy ei hadran addysg?
- Datblygwyd https://www.adventuresmart.uk/cy/home-cy/ yn sgil blwyddyn antur Llywodraeth Cymru yn 2016 i helpu i lywio hamdden cyfrifol.
- Mae Cyngor Mynydda Prydain wedi gneud llawer o waith ar atebolrwydd deiliaid ac wedi llunio canllaw defnyddiol i dirfeddianwyr a deiliaid tir, sef Why rock climbers aren't a liability (thebmc.co.uk)
- Mae staff/contractwyr 'cwrdd a chyfarch' Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi bod yn enghraifft wych ers y pandemig Covid o ran ffordd llawn dychymyg i helpu i reoli ymwelwyr/diogelwch mewn cefn gwlad gwyllt / a ddatblygwyd ychydig.

## 5. Cyfraniadau ysgrifenedig

Mae cyfraniadau ysgrifenedig wedi'u cylchredeg. Roedd unrhyw ddiweddariadau pellach i'w cyflwyno i Carys erbyn 12 Tachwedd.

## 6. Edrych tua'r dyfodol a dyddiad y cyfarfod nesaf

Mae'r dyddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf, 15 Mawrth 2021, i'w gadarnhau. Y gobaith yw y gallai hwn fod yn gyfarfod wyneb yn wyneb, ond gan ystyried yr ansicrwydd parhaus oherwydd Covid, mae angen lleoliad addas. Dylid cynnal

cyfarfod hybrid (wyneb yn wyneb â'r gallu i ymuno ar-lein) i alluogi rhai aelodau a'r cyhoedd i arsylwi ar-lein.

**Cam Gweithredu 70.3:** Carys i gylchredeg dyddiadau cyfarfodydd 2022 ac archwilio opsiynau ar gyfer cyfarfod wyneb yn wyneb ym mis Mawrth.

Diolchodd y cadeirydd bawb am gymryd rhan yn y cyfarfod ac roedd yn edrych ymlaen at weld pawb wyneb yn wyneb, gobeithio, yn y cyfarfod nesaf.